



Swyddfa Annibynnol
Ymddygiad yr Heddlu

Independent Office
for Police Conduct

Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

Cwestiynau cyn
penderfynu am
adolygiadau

Mawrth 2024

Cynnwys


Cynnwys	2
1 Am adolygiadau	4
1.1 Beth yw 'adolygiad'?.....	4
1.2 Sut ydw i'n gwybod os dylai fy nghais am adolygiad fynd i SAYH neu'r corff plismona lleol?	5
1.3 Pryd mae gennyf hawl i ymgeisio am adolygiad i'r SAYH?	5
1.4 Fyddwch chi'n gweithredu ar fy rhan?	6
2. Y broses adolygu	7
2.1 Rwyf wedi ymgeisio am adolygiad. Beth fydd yn digwydd nesaf?.....	7
2.1 Ble allaf i gyflwyno gwybodaeth i'w hystyried yn ystod y broses adolygu?.....	10
2.3 Pryd ddylwn i ddisgwyl derbyn penderfyniad am fy nghais am adolygiad?	10
2.4 beth sy'n digwydd pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud?.....	11
2.5 Ydy SAYH yn delio â hawliadau iawndal?.....	12
2.6 Ydy'r SAYH yn gallu gwneud i'r heddlu ymddiheuro i mi?	12
2.7 Gyda phwy allaf i gysylltu am ragor o wybodaeth?	12
Geirfa	13

Diolch am ymgeisio am adolygiad i'r SAYH.

Dylai'r ddogfen hon eich helpu i ddeall beth yw adolygiad, os ydych yn dilyn y broses gywir wrth ymgeisio am adolygiad i SAYH, a beth y byddwn yn ei wneud.

Bydd y SAYH yn penodi naill ai ddadansoddwr asesiad neu reolwr gwaith achos i gynnal yr adolygiad. Gan ddibynnu ar y math o adolygiad, gallant gysylltu â chi cyn gynted â'u bod yn dechrau asesu eich cais am adolygiad.

Trosolwg o broses yr adolygiad gyda'r SAYH



1 Am adolygiadau

1.1 Beth yw 'adolygiad'?

Os ydych yn credu nad oedd canlyniad eich cwyn am eich heddlu lleol yn rhesymol a chymesur gallwch ymgeisio am adolygiad (Gweler adran 1.3 i farnu os oes gennych yr hawl i ymgeisio am adolygiad).

Mae cais am adolygiad yn gyfle i ofyn i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) *neu'r corff plismona lleol* (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn) i ystyried canlyniad eich cwyn.

Os gwnaed eich cwyn ar neu ar ôl 1 Chwefror 2020 ac mae wedi cael ei chofnodi, mae gennych hawl i ymgeisio am adolygiad.

Gall eich cwyn fod wedi cael ei hymchwilio. Fel arall, gall eich cwyn fod wedi cael ei thrin mewn ffordd heblaw am ymchwiliad, sy'n cael ei adnabod fel 'ymdriniaeth arall'. Rydym yn ymdrin â'r ddau fath o gais. Dylai'r awdurdod priodol fod wedi *dweud wrthy*ch (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn) sut yr ymdriniwyd â'ch cwyn, beth yw'r canlyniad ac i bwy y gallwch ymgeisio i gael adolygu'r canlyniad, hynny yw, ai SAYH *neu'r corff plismona lleol*.

Sylwch: nid yw adolygiad yn ailymchwiliad o'ch cwyn wreiddiol. Ni fyddwn yn ymchwilio i'r digwyddiad gwreiddiol y gwnaethoch gysylltu â'ch heddlu lleol yn ei gylch.

Ein rôl yw ystyried os yw canlyniad yr ymchwiliad, neu ganlyniad yr ymdriniaeth, o'ch cwyn a roddwyd i chi gan yr **heddlu** yn rhesymol a chymesur.

Yr unig gwestiwn i'w ateb gan SAYH yn yr adolygiad yw:

'Ydy canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur?' Mae beth mae hyn yn ei gynnwys yn dibynnu ar y math o gais am adolygiad.

Mae gennych **29 diwrnod**, gan ddechrau o ddyddiad eich llythyr oddi wrth yr awdurdod priodol i gyflwyno'r cais am adolygiad a chopi o lythyr y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys yr amser mae eich cais yn ei dreulio yn y post. **Os nad ydym yn derbyn eich cais o fewn 29 diwrnod o ddyddiad y canlyniad, nid oes rhaid i ni ystyried eich cais.**

1.2 Sut ydw i'n gwybod os dylai fy nghais am adolygiad fynd i SAYH neu'r corff plismona lleol?

Pan ddywedir am ganlyniad eich gwyn gan yr heddlu, bydd y llythyr yn esbonio os ydych yn gallu ymgeisio am adolygiad ac os felly, i bwy y gallwch ymgeisio. Dyma'ch **'corff adolygu perthnasol'**.

'Corff adolygu perthnasol' (RRB) yw'r sefydliad fydd yn ymdrin â'ch cais am adolygiad. Mae hyn naill ai i'r Corff Plismona Lleol neu SAYH.

Dylid anfon eich cais am adolygiad at y corff adolygu perthnasol. SAYH yw'r Corff Adolygu Perthnasol yn yr amgylchiadau canlynol lle:

- Yr awdurdod priodol yw corff plismona lleol
- Mae'r gŵyn ynglŷn ag ymddygiad uwch swyddog (swyddog sy'n dal rheng uwchlaw prif arolygydd)
- Nid yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano (pe byddai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dod ag achos troseddol neu ddisgyblaethol neu na fyddai'n cynnwys torri hawliau unigolyn o dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gweler geirfa)
- Mae'r gŵyn wedi cael, neu mae'n rhaid, ei hatgyfeirio at SAYH
- Mae'r SAYH yn trin y gŵyn fel pe byddai wedi cael ei hatgyfeirio (hefyd yn cael ei adnabod fel 'pŵer blaengaredd', gweler paragraffau 9.36 - 9.39 o'r Cyfarwyddyd Statudol)
- Mae'r gŵyn yn codi o'r un digwyddiad â chwyn yn syrthio o fewn ii -v
- Mae unrhyw ran o'r gŵyn yn syrthio o fewn ii-vi

Y corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol ar gyfer unrhyw gwynion nad ydynt yn cydweddu â'r rhestr o amgylchiadau uchod.

1.3 Pryd mae gennyf hawl i ymgeisio am adolygiad i'r SAYH?

Lle mae SAYH yn gorff adolygu perthnasol, gallwch ymgeisio am adolygiad i'r SAYH.

- Yn erbyn canlyniad yr ymchwiliad i'ch cwyn.
- Yn erbyn canlyniad yr ymdriniaeth heblaw am ymchwiliad i'ch cwyn.

Nid oes hawl i ymgeisio am adolygiad i SAYH lle:

- Mae SAYH wedi cyflawni ymchwiliad (gelwir yn Ymchwiliad annibynnol) neu roedd ganddynt gyfarwyddyd/reolaeth dros ymchwiliad (gelwir yn Ymchwiliad Cyfeiriedig).
- Ymdriniwyd â chwyn y tu allan i Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, neu lle nad yw'r gŵyn wedi cael ei chofnodi oherwydd nad yw'r unigolyn sy'n gwneud y gŵyn yn gymwys i fod yn achwynydd neu fod y gŵyn wedi cael ei thynnu yn ôl yn flaenorol.

Mae 'Ymchwiliadau annibynnol SAYH' yn wahanol i 'adolygiad'. Y rhain yw pan fydd SAYH yn ymchwilio i'r digwyddiad gwreiddiol. Rydym ond yn ymchwilio i'r digwyddiadau a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.policeconduct.gov.uk/investigations.

1.4 Fyddwch chi'n gweithredu ar fy rhan?

Na. Rydym yn sefydliad annibynnol sy'n goruchwyllo system gwynion yr heddlu, felly **nid ydym yn cynrychioli nac yn gweithredu ar eich rhan nac ar ran yr heddlu.**

Gallwch ddefnyddio unigolyn arall i'ch helpu trwy'r broses, megis aelod o'r teulu neu gyfreithiwr annibynnol.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **0300 020 0096**.

2. Y broses adolygu

2.1 Rwyf wedi ymgeisio am adolygiad. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os cafodd eich cwyn ei hymchwilio byddwn yn cysylltu â chi gyntaf. Os ymdriniwyd â'ch cwyn heblaw trwy ymchwiliad, ni fyddwn yn cysylltu â chi o reidrwydd. Byddwn wedyn yn cysylltu â'r **awdurdod priodol** i gael yr holl bapurau cefndir perthnasol a thystiolaeth am sut yr ymdriniwyd â'ch cwyn neu yr ymchwiliwyd iddi.

Awdurdod priodol yw'r sefydliad neu'r unigolyn a ddylai edrych ar eich cwyn a byddant yn dweud wrthyfych pa sefydliad fydd yn ymdrin â'ch adolygiad.


Ni fyddwn yn cysylltu â'r unigolyn y gwnaethoch eich cwyn amdano, ond gall fod rhaid i ni siarad â'r unigolyn a gyflawnodd yr ymdriniaeth neu'r ymchwiliad i'ch cwyn. Rydym yn eich annog i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl gyda'ch cais. Ym mhob achos, bydd eich adolygiad yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r holl bapurau a thystiolaeth gefnogol sydd ar gael rydych chi a'r awdurdod priodol wedi'u darparu ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth ychwanegol rydym yn ystyried sy'n angenrheidiol i'w chael i benderfynu ar yr adolygiad.

Bydd yr unigolyn sy'n cynnal eich adolygiad yn ystyried os oedd canlyniad eich cwyn yn rhesymol a chymesur.

Mae beth all ddigwydd nesaf yn dibynnu ar os yw eich cwyn wedi cael ei hymchwilio neu ei thrin heblaw am trwy ymchwiliad. Lle yr ymdriniwyd â'ch cwyn heblaw am trwy ymchwiliad, ac rydym yn canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, gallwn: benderfynu ei fod yn angenrheidiol i'ch cwyn gael ei hymchwilio; neu, wneud argymhelliad gyda golwg ar ddatrys eich anfodlonrwydd.

Lle, yn dilyn ymchwiliad, rydym yn canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, gallwn: wneud ein canfyddiadau ein hunain; cyfarwyddo bod eich cwyn yn cael ei hailymchwilio, a phenderfynu ar ddull yr ymchwiliad; gwneud argymhelliad (ac, os oes angen, cyfarwyddyd) i'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sy'n gwasanaethau â'r heddlu (ynghylch os oes ganddynt achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, os yw eu perfformiad yn anfoddhaol, ac os yw achos disgyblaethol yn cael ei ddwyn yn erbyn yr unigolyn); gwneud argymhelliad gyda golwg ar ddatrys eich anfodlonrwydd; hysbysu Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS) ein bod yn ystyried bod yr adroddiad yn dangos y gall camwedd troseddol fod wedi cael ei gyflawni gan unigolyn y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad, ac rydym yn ei hystyried yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Eryl y Goron, a darparu copi iddynt o'r adroddiad.

Os hoffech wybod rhagor am beth yw ystyr rhesymol a chymesur, cyfeiriwch at bennod 17 o'n Cyfarwyddyd Statudol ar y system gwynion. Lle rydym yn canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur byddwn yn cadarnhau'r adolygiad.



YN YSTOD Y BROSES ADOLYGU

2.1 Ble allaf i gyflwyno gwybodaeth i'w hystyried yn ystod y broses adolygu?

Byddwn yn cysylltu â'r heddlu perthnasol i dderbyn pob tystiolaeth a gwybodaeth gefndir ynghylch eu hymchwiliad neu ymdriniaeth â'ch cwyn. Byddwn wedyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal eich adolygiad.

Fodd bynnag, gallwch gyflwyno rhagor o wybodaeth i ni os dymunwch, trwy e-bost i northcasework@policeconduct.gov.uk gyda'ch enw a'ch cyfeirnod SAYH.

Yr adeg pan wnewch eich apêl yw'ch cyfle i ddarparu'r holl wybodaeth i'w hystyried i ni. Mae hyn oherwydd nad ydych yn gallu darparu gwybodaeth ychwanegol i'w hystyried ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

Mae gennych hyd at yr adeg rydym yn cyrraedd penderfyniad i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol, ond rydym yn argymhell i chi wneud hyn o fewn 7 diwrnod o bryd y cyflwynwch eich apêl i gael y cyfle gorau y byddwn yn edrych arno mewn pryd. Ni fyddwn yn derbyn gwybodaeth ar ôl i ni wneud penderfyniad ar eich apêl.

Os ydych chi am anfon **cyfryngau digidol atom** (e.e. copïau digidol o ddogfennau, lluniau neu fideos digidol ac ati) i gefnogi'ch cais am adolygiad, sicrhewch ei fod **wedi'i amgryptio** (wedi'i ddiogelu gan gyfrinair) ac anfonwch y cyfrinair atom ar wahân. Os ydym yn derbyn cyfryngau wedi'u hamgryptio ac rydych am i ni eu dychwelyd atoch yn ddiweddarach, efallai na fyddwn yn gallu eu hanfon atoch yn eu ffurf gwreiddiol.

2.3 Pryd ddylwn i ddisgwyl derbyn penderfyniad am fy nghais am adolygiad?

Rydym yn delio â cheisiadau am adolygiad cyn gynted â phosibl ac yn diweddarau ein gwefan yn rheolaidd i ddangos dyddiad y ceisiadau am adolygiadau rydym yn gweithio arnynt.

Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau i leihau ein hamseroedd aros ac mae'n bosibl y byddwn yn cynnal eich adolygiad yn gyflymach o lawer. Yn y llythyr cydnabyddiaeth rydym yn ei anfon atoch, byddwn yn rhoi gwybod i chi tua pa mor hir y bydd yn cymryd i chi dderbyn penderfyniad.

Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at www.policeconduct.gov.uk/appeals.

2.4 beth sy'n digwydd pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud?

Byddwn yn penderfynu os bydd eich adolygiad yn cael ei '**gadarnhau**' neu '**heb ei gadarnhau**'.

Wedi'i Gadarnhau

Os byddwn yn **cadarnhau** eich adolygiad mae'n golygu ein bod yn ystyried nad oedd canlyniad eich cwyn yn rhesymol a chymesur. Byddwn yn esbonio pam mae hynny, ac yn datgan hyn yn eich llythyr penderfyniad.

Heb ei gadarnhau

Os **nad yw adolygiad yn cael ei gadarnhau** mae'n golygu bod canlyniad eich cwyn yn rhesymol a chymesur. Byddwn yn esbonio pam mae hynny, ac yn datgan hyn yn eich llythyr penderfyniad. Nid oes hawl i apêl yn dilyn penderfyniad.

Sylwch: Ni allwch apelio i SAYH am benderfyniad adolygiad rydym wedi ei wneud. Mae penderfyniadau adolygiadau yn derfynol. Mae hyn yn golygu bod unrhyw benderfyniadau adolygiadau a wneir gan SAYH yn gallu cael eu gwyrddro gan y llysoedd yn unig trwy'r broses adolygiad barnwrol. Gallwch ddymuno ceisio'ch cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun os ydych yn bwriadu dilyn y cam gweithredu hwn.

Cyn gynted â'n bod wedi gwneud ein penderfyniad o naill ai 'gadarnhau' neu 'beidio â chadarnhau', byddwn yn ysgrifennu atoch a'r *awdurdod priodol* i esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniad, yn ogystal ag unrhyw argymhellion posibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod angen rhagor o wybodaeth arnoch am benderfyniad yr adolygiad, cysylltwch â'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad. Gall esbonio'r penderfyniad ac ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych.

Bydd unrhyw argymhelliad posibl yn dibynnu'n llwyr ar eich achos unigol. Am ragor o wybodaeth am beth i'w wneud ar ôl i chi dderbyn eich penderfyniad adolygiad, cyfeiriwch at ein **Cwestiynau Cyffredin ar ôl penderfyniad**.

2.5 Ydy SAYH yn delio â hawliadau iawndal?

Na. Nid yw cylch gorchwyl SAYH yn cwmpasu hawliadau am iawndal gan yr heddlu.

Os ydych am fynd ar drywydd unrhyw hawliadau ariannol yn erbyn yr heddlu, dylech gysylltu â'r heddlu dan sylw.

Gallwch hefyd gysylltu â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol am ragor o wybodaeth neu i geisio cyngor cyfreithiol.

Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at www.citizensadvice.org.uk.

2.6 Ydy'r SAYH yn gallu gwneud i'r heddlu ymddiheuro i mi?

Na.

Mae SAYH yn gallu argymhell bod ymddiheuriad yn cael ei gynnig, ond ni allwn gyfarwyddo'r heddlu i wneud hyn.

2.7 Gyda phwy allaf i gysylltu am ragor o wybodaeth?

Os oes gennych gwestiwn penodol ynglŷn â'r broses adolygu cysylltwch ag aelod o'n Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar **0300 020 0096**.

Geirfa

Awdurdod Priodol (AP)

AP yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ystyried cwynion a bydd yn dweud wrthyich pa sefydliad fydd yn ymdrin â'ch adolygiad. Mae hyn naill ai:

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr AP fydd prif swyddog y llu heddlu y mae anfodlonrwydd yn cael ei fynegi amdano neu, lle mae cwyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn, y prif swyddog sydd â chyfarwyddyd a rheolaeth dros yr unigolyn hwnnw. Ar gyfer y rhan fwyaf o heddluoedd, y prif swyddog yw'r Prif Gwnstabl. I Wasanaeth Heddlu'r Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain y Comisiynydd ydyw.

Mewn rhai achosion, gallai'r AP fod y Corff Plismona Lleol (LPB). Os yw cwyn yn ymwneud ag ymddygiad prif swyddog neu brif swyddog dros dro, yr awdurdod priodol yw'r Corff Plismona Lleol â chyfrifoldeb dros ardal y llu hwnnw.

Corff Plismona Lleol (LPB)

Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd y LPB yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Mae LPBs yn gyfrifol am gyflawni adolygiadau lle maen nhw'n Gorff Adolygu Perthnasol. Gall LPBs fod wedi dewis cymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau ychwanegol penodol yn yr ymdriniaeth gychwynnol o gwynion a'r ddarpariaeth o wybodaeth a fyddai fel arall yn cael eu cyflawni gan y prif swyddog neu AP.

Corff Adolygu Perthnasol (RRB)

RRB yw'r sefydliad fydd yn ymdrin â'ch cais am adolygiad.

Mae hawl adolygiad i'r RRB yn dilyn canlyniad yr AP o gŵyn a gofnodwyd os yw hyn naill ai trwy ymchwiliad, neu fath arall o ymdriniaeth.

Mae'r hawl i ymgeisio am adolygiad **inaill ai'r** Corff Plismona Lleol neu SAYH.

Sylwch: Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan:

www.policeconduct.gov.uk.

Cyhoeddwyd Mis Mawrth 2024

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Tel: **0300 020 0096**

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

